Cofnodion Cyfarfod Cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos Lun, 17 Gorffennaf 2017, am 7:00p.m.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Jim Bryan (Maer), Ian Lewney (Dirprwy Faer).
Y Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Stephen Beach, Gavin Harris, Ken Hawkins, Rosie Hughes, Menna Jones, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Dave Snape, Heather Williams, Ifan Wyn ac Emrys Wynne.
Hefyd y Cynghorydd Sir Bobby Feeley.

57. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Geraint Woolford.

58. CYFLWYNIAD AR GYNLLUNIAU BRO

Croesawodd y Maer Angela Loftus, Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai, ac Amy Selby, Swyddog Prosiectau Cymuned, Cyngor Sir Ddinbych. Cyflwynodd Amy Selby ddiweddariad ar yr adnodd Prosiectau Cymunedol sy'n cael ei ddatblygu fel adnodd ar-lein i gynorthwyo gyda llunio cynllun bro, a fydd yn cynnwys cyswllt i fap rhyngweithiol y Cynllun Datblygu Lleol. Dylai gael ei lansio ddiwedd mis Medi. Siaradodd Angela Loftus am broses adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol gan nodi eu bod yn gweithio ar y cam cyntaf, adroddiad adolygu drafft y bwriedir ymgynghori arno. Anogodd yr aelodau i ystyried sut y byddai Cynllun Bro Rhuthun yn cyd-fynd gyda pholisïau a chynigion y Cynllun Datblygu Lleol.

59. DATGAN BUDDIANNAU

Derbyniwyd datganiadau o fuddiannau fel a ganlyn: Eitem 11 – Cais am gymorth ariannol gan Grŵp Cymuned Rhuthun – Y Cynghorwyr Ian Lewney a Dave Snape.

60. ADRODDIAD Y MAER

Adroddodd y Maer ei fod wedi bod yn y digwyddiadau isod.

20.06 Gŵyl Rhuthun
21.06 Codi'r faner ar gyfer Diwrnod y Lluoedd Arfog
24.06 Carnifal Rhuthun
25.06 Cyfarfod Pwyllgor Gŵyl Rhuthun
27.06 Noson caws a gwin elusen y Maer
28.06 Cyngerdd yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy
30.06 Llofnodi'r trawstiau yn safle'r ysgolion newydd
01.07 Top Dre, Gŵyl Rhuthun
02.07 Cyngerdd yn y Capel Presbyteraidd
03.07 Cyfarfod Pwyllgor Rheoli Awelon a chyflwyno Gwobr Quayle yng Ngardd yr Arglwydd, Nantclwyd y Dre
04.07 Cyfarfod gweithgor yr Hen Lys gyda Tom Booty
06.07 Cyngerdd Only Boys Aloud yn Eisteddfod Gydwladol Llangollen
09.07 Sul Dinesig y Maer a Sul Dinesig Maer Dinbych
11.07 Cyfarfod yn yr Orsaf Dân am faes parcio Heol y Parc a hyfforddiant Cod Ymddygiad
12.07 Cynhadledd ar y cyd SLCC/Unllais Cymru a chyngerdd Doniau Ifanc Brynhyfryd
13.07 Cyfarfod pwyllgor y Gymdeithas Efeillio
15.07 Agor prynhawn Rasys Mulod Clwb Rotari Rhuthun

61. ADRODDIADAU'R AELODAU

Cyng. Ian Lewney — Cyfarfodydd gweithgor yr Hen Lys, Carnifal Rhuthun, noson caws a gwin elusen y Maer, Top Dre, cyfarfod gyda Sam Williams, Rheolwr Treftadaeth CSDd, cyfarfod yr Is-bwyllgor Cynllun Iaith, Sul Dinesig, hyfforddiant Cod Ymddygiad ac agoriad swyddogol canolfan gymnasteg newydd Clwb Gymnasteg Rhuthun a Dinbych yn Ninbych.

Cyng. Keiran — Carnifal Rhuthun, Sul Dinesig, hyfforddiant Cod Ymddygiad a Chyfarfod

Allsopp-Robson	Blynyddol a chwarterol Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru.
Cyng. Stephen Beach	Carnifal Rhuthun, digwyddiadau Gŵyl Rhuthun, noson caws a gwin elusen y Maer, cyflwyno Gwobr Quayle, cyfarfod Llywodraethwyr Ysgol Stryd y Rhos, hyfforddiant Cod Ymddygiad, cyfarfod yr Is-bwyllgor Cynllun Iaith a Chyfarfod Blynyddol a chwarterol Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru.
Cyng. Gavin Harris	Drama Comedy of Errors, cyfarfodydd gweithgor yr Hen Lys, cyfarfod gyda chynrychiolydd Cadw Cymru'n Daclus, cyfarfod â Sam Williams, Rheolwr Treftadaeth CSDd, Sul Dinesig a hyfforddiant Cod Ymddygiad.
Cyng. Ken Hawkins	Carnifal Rhuthun, Top Dre, Sul Dinesig a hyfforddiant Cod Ymddygiad.
Cyng. Rosie Hughes	Noson caws a gwin elusen y Maer a Sul Dinesig.
Cyng. Robert Owen-Ellis	4 sesiwn Banc Bwyd a Chyfarfod Blynyddol y Banc Bwyd, cyngerdd gan Gôr Ysgol Pen Barras, Côr Cytgan Clwyd a Chôr Rhuthun, noson caws a gwin elusen y Maer, cyfarfod Pwyllgor Iechyd a Diogelwch Ysgol Pen Barras, Sul Dinesig, hyfforddiant Cod Ymddygiad, cyfarfod llywodraethwyr Ysgol Pen Barras a chyngerdd Doniau Ifanc Brynhyfryd.
Cyng. Menna Jones	Pwyllgor Cynghori Llys Marchan, bore coffi Llys Marchan, Carnifal Rhuthun, digwyddiadau Gŵyl Rhuthun, cyflwyniad Gwobr Quayle, Sul Dinesig a hyfforddiant Cod Ymddygiad.
Cyng. Anne Roberts	Carnifal Rhuthun, noson caws a gwin elusen y Maer, cyngerdd Gŵyl Rhuthun Ysgol Borthyn, cyflwyno Gwobr Quayle, Sul Dinesig, hyfforddiant Cod Ymddygiad a chyfarfodydd gweithgor yr Hen Lys.
Cyng. Dave Snape	Carnifal Rhuthun, cyngerdd plant Gŵyl Rhuthun, Top Dre, Sul Dinesig, hyfforddiant Cod Ymddygiad a Rasys Mulod.
Cyng. Heather Williams	Cyfarfodydd gweithgor yr Hen Lys, noson caws a gwin elusen y Maer, cyfarfod Pwyllgor Rheoli Canolfan Awelon, Sul Dinesig a hyfforddiant Cod Ymddygiad.
Cyng. Ifan Wyn	Digwyddiad Gŵyl Rhuthun, cyfarfod yr Is-bwyllgor Cynllun Iaith, noson caws a gwin elusen y Maer, Sul Dinesig a hyfforddiant Cod Ymddygiad.
Cyng. Emrys Wynne	Cyngerdd yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy, Cyfarfod Blynyddol Cymorth Cynllunio Cymru, cyngerdd yn y Capel Presbyteraidd, cyfarfod yr Is-bwyllgor Cynllun Iaith a Sul Dinesig.

Crybwyllodd y Cynghorydd Ian Lewney awgrym a wnaed yng nghyfarfod yr Is-bwyllgor Cynllun Iaith y dylai aelodau hysbysu'r Clerc am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau y buont ynddynt cyn y cyfarfod, fel y gellid paratoi rhestr ysgrifenedig i'w dosbarthu i'r holl aelodau.

PENDERFYNWYD: *cyflwyno system o gynhyrchu Adroddiad y Maer ac Adroddiadau'r Aelodau yn ysgrifenedig o fis Medi 2017 ymlaen.*

62. COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL

PENDERFYNWYD*: cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2017 yn gywir.*

63. MATERION YN CODI

Holodd aelod ynghylch cysylltu â'r disgybl o Ysgol Stryd y Rhos ynghylch y diffibrilydd arfaethedig, a holodd a oedd unrhyw ddiweddariad ynghylch y bathodynnau adnabod. Cadarnhaodd y Clerc fod y materion hyn mewn llaw.

64. Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf 2017.

PENDERFYNWYD*: derbyn y cofnodion.*

65. Y PWYLLGOR AMWYNDERAU

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf 2017.

***PENDERFYNWYD**: derbyn y cofnodion.*

66. YR IS-BWYLLGOR CYNLLUN IAITH GYMRAEG

Gofynnwyd i'r aelodau dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2017. Cyflwynodd y Cynghorydd Emrys Wynne grynodeb o'r trafodaethau, yn cynnwys cynnig y Cynghorydd Ifan Wyn i lunio taflen i annog busnesau'r dref i hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg, a'r argymhelliad y dylai cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a'r Pwyllgor Amwynderau gael eu hysbysu fel rhai agored i'r cyhoedd ac felly dylid cael cyfieithydd yn bresennol fel y gallai'r rhai'n bresennol yn y cyfarfod ddefnyddio eu dewis iaith.

***PENDERFYNWYD**: derbyn yr argymhelliad a gweithredu'r newidiadau o fis Medi 2017 ymlaen.*

67. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL

Cafwyd cais gan yr aelodau i drafod yr eitem hon yn Rhan II.

***PENDERFYNWYD**: trafod yr eitem hon yn Rhan II.*

68. DIWEDDARIAD YNGHYLCH YR HEN LYS

***PENDERFYNWYD**: trafod yr eitem hon yn Rhan II.*

69. DIWEDDARIAD YNGHYLCH CYNIGION ARDAL CHWARAE CAE SEREN

Cyflwynodd y Clerc ddiweddariad ar y cynnydd hyd yma, ac esboniodd y bwriedir cynnal ymgynghoriad ym mis Medi i weld a fyddai'n well gan y gymuned leol gael Ardal Gemau Aml Ddefnydd neu ardal chwarae plant ar safle'r Caeau Chwarae Coffa. Awgrymodd aelod fod angen edrych ar yr holl ardaloedd chwarae yn Rhuthun i gael darlun cyflawn o'r hyn a gynigir.

***PENDERFYNWYD**: nodi'r diweddariad ac i aelodau'r Pwyllgor Amwynderau wneud arolwg o'r holl feysydd chwarae cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor Amwynderau ar 11 Medi.*

70. DIWEDDARIAD YNGHYLCH RALI GB CYMRU 2017

Darllenodd y Clerc neges e-bost oddi wrth Alyn Edwards Trefnydd Rhanbarthol (Y Gogledd), Rali GB Cymru, yn cadarnhau bod newidiadau i lwybr y rali yn golygu na fyddai digwyddiad ail-lenwi gyda thanwydd na gwasanaethu'r ceir yn Rhuthun eleni, ond byddai'r ceir yn mynd trwy'r dref i gyrraedd cymal Coedwig Clocaenog.

***PENDERFYNWYD**: nodi'r diweddariad.*

71. TREFNIADAU AR GYFER CYFARFOD Y PWYLLGOR PWERAU BRYS

Gofynnwyd i'r aelodau gytuno ar ddyddiad cyfarfod ym mis Awst i ymdrin ag unrhyw faterion cynllunio a chyfrifon i'w talu.

***PENDERFYNWYD**: y dylai'r Maer, y Dirprwy Faer a Chadeirydd y Pwyllgor Amwynderau gyfarfod ganol mis Awst.*

72. GOHEBIAETH

Roedd gwybodaeth am ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ar God Trefniadaeth Ysgolion Diwygiedig wedi'i ddosbarth trwy e-bost yn flaenorol.

***PENDERFYNWYD**: nodi'r ohebiaeth.*

73. DATGANIAD ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau gymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 30 Mehefin 2017.

***PENDERFYNWYD**: derbyn a chymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 30 Mehefin 2017.*

74. CYFRIFON I'W TALU

***PENDERFYNWYD**: cymeradwyo talu'r cyfrifon a ganlyn.*

5062	Cymdeithas Efeillio Rhuthun	Cymorth ariannol	£500.00

D.D.	BT Business	Gwasanaethau ffôn	*	£99.31
5063	SLCC Enterprises Ltd	Cynhadledd ar y cyd SLCC/Unllais Cymru	*	£165.60
5064	Llanfwrog CIC	Torri glaswellt – Gorffennaf 2017		£342.00
5065	Sandra Williams	Ffi Danfoniad Arbennig - BDO		£8.55
5066	Fineline	Papur, cerdyn ac amlenni	*	£38.01
S.O.	Canda Copying Ltd	Rhentu'r llungopïwr a chopïau isafswm	*	£129.14
5067	Canda Copying Ltd	Copïau du a gwyn ychwanegol	*	£31.04
5068	Canda Copying Ltd	Copïau lliw ychwanegol	*	£37.16
5069	Vale Country Club	Cinio Sul Dinesig		£1,974.00
5070	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth Incwm ac Yswiriant Gwladol	*	£274.90
5071	Marian Rees	Cyfieithu ar y pryd	*	£90.00
5072	Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru	2 ginio yn dilyn Cyfarfod Blynyddol a chyfarfod chwarterol y gymdeithas ar 14 Gorffennaf 2017	*	£32.00
5073	Llanfwrog CIC	Dyfrio'r basgedi crog x 6 – Mehefin 2017		£858.00
5074	J & C Brimble	Dyfrio'r basgedi crog x 3 – Mai 2017		£429.00
5075	Cyngor Sir Ddinbych	Cost etholiad di-wrthwynebiad		£170.44

75. FFURFLEN FLYNYDDOL I'R ARCHWILYDD ALLANOL

Gofynnwyd i'r aelodau gymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol wedi'i hailddatgan, a ddiwygiwyd yn unol ag argymhellion adroddiad yr Archwilydd Mewnol.

PENDERFYNWYD*: cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol wedi'i hailddatgan a anfonwyd at yr archwilydd allanol, BDO.*

RHAN DAU

Cynigiwyd ac eiliwyd ystyried yr eitemau isod heb i'r wasg a'r cyhoedd fod yn bresennol oherwydd natur sensitive a chyfrinachol yr wybodaeth y gellid ei datgelu.

76. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL

Trafododd yr aelodau'r cais am £1,000 tuag at ddathliadau Nos Galan ar Sgwâr Sant Pedr a gyflwynwyd gan Grŵp Cymuned Rhuthun.

PENDERFYNWYD*: bod angen rhagor o wybodaeth.*

77. YR HEN LYS

Rhannodd y Cynghorydd Gavin Harris wybodaeth am waith gweithgor yr Hen Lys ynghylch y posibilrwydd o brynu adeilad Banc y NatWest yn flaenorol, a defnydd arfaethedig yr adeilad petai'n cael ei brynu. Cyfeiriodd hefyd at y posibilrwydd o drosglwyddo ased Neuadd y Dref i Gyngor Tref Rhuthun yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD*: cynnal cyfarfod arbennig o'r Cyngor Tref i drafod prynu'r Hen Lys yn fwy manwl.*

78. LLYFRGELL RHUTHUN

Dosbarthwyd cynlluniau cyfrinachol a chyfyngedig ynghylch Llyfrgell Rhuthun i aelodau, yn dilyn cadarnhad gan Tom Booty, Rheolwr Rhaglen Cyfleusterau, Asedau a Thai, y gellid rhannu'r wybodaeth gyda Chynghorwyr Tref Rhuthun.

PENDERFYNWYD*: gwahodd Tom Booty i gyfarfod arbennig Cyngor Tref Rhuthun i ddarparu rhagor o fanylion am yr uchod.*

79. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: cadarnhau mai dyddiad y cyfarfod cyffredin nesaf fydd nos Lun, 25 Medi 2017 am 7.00pm.*